# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Cod Ymddygiad - Adolygiad: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir'

(09.30-10.00) (Tudalennau 1 - 6)

SoC(5)-19-18 Paper 1 - Welsh Government response on 'Creating the Right Culture' report

SoC(5)-19-18 Papur 2 - Llythyr gan Jayne Bryant AC, Cadeirydd y Pwyllgor, at y Llywydd ynghylch adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir' (11 Hydref 2018)

SoC(5)-19-18 Papur 3 - Ymateb gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor ynghylch yr adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir' (30 Hydref 2018)

## 3 Trafod adroddiad y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(10.00 - 11.00)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee

Elin Jones AC, y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Hydref 2018

**Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Creu'r Diwylliant Cywir**

Annwyl Lywydd,

Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2018, trafododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi ymagwedd gadarnhaol y Comisiwn wrth dderbyn yr argymhellion. Edrychaf ymlaen at glywed y wybodaeth ddiweddaraf gennych yn rheolaidd am hynt y gwaith hwn a gweithredu ein hargymhellion. Dim ond rhan o'r maes gwaith pwysig hwn oedd adroddiad y Pwyllgor a bydd angen ei fonitro a'i adfywio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.

O ran Argymhelliad 14, byddwn yn croesawu amserlen gliriach o ran pryd rydych yn disgwyl y byddwch yn ymateb yn ffurfiol. Rwy'n deall bod angen amser ar y fenter newydd, sef swyddogion cyswllt, a gyflwynwyd ym mis Mai, er mwyn ei sefydlu a'i hadolygu. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu nodyn ar sut y mae'r fenter yn gweithio ym mis Tachwedd – chwe mis ers ei chyflwyno.

Bydd adroddiad y Pwyllgor yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Tachwedd pan fydd ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 12 ar gael.

Felly, byddwn yn croesawu ymateb i'r llythyr hwn erbyn 31 Hydref, er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ei drafod yn ein cyfarfod ar 6 Tachwedd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Yn gywir,

Jayne Bryant

**Cadeirydd**

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Jayne Bryant AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO540/EJ/CS

30 Hydref 2018

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref.

Fel y nodwyd yn ein gohebiaeth flaenorol, bydd Comisiwn y Cynulliad yn dymuno cael cyngor ynghylch y posibilrwydd o gael system adrodd ddienw unwaith y bydd y Comisiynydd Safonau wedi adrodd ar ei waith ar weithdrefnau cwynion y pleidiau gwleidyddol ac unwaith y bydd prawf anhysbys o'n prosesau cwyno wedi'i gwblhau. Roedd cynnal y prawf hwn yn un o argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad, a dderbyniwyd gennym, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd 2018. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi bod yn awyddus i ymateb i sylwadau a glywsom yn y cyfryngau ynghylch cymhlethdod gwahanol systemau, a bod hyn yn cael ei ystyried fel rhwystr rhag gwneud cwynion drwy'r llwybrau ffurfiol. Gan ystyried y materion hyn, bydd y Comisiwn am gael rhagor o gyngor yn gynnar yn 2019 cyn dod i benderfyniad ar broses adrodd anhysbys.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Swyddogion Cyswllt newydd ers i ni gyflwyno'r rôl hon ym mis Mai. Darperir y wybodaeth hon mewn termau cyffredinol i sicrhau cyfrinachedd gwaith y Swyddogion Cyswllt fel yr amlinellwyd yn y polisi Urddas a Pharch a'r canllawiau cysylltiedig. Rwyf wedi cael gwybod bod tua wyth cyswllt wedi'i wneud â'r gwasanaeth ac mae pob un o'r unigolion perthnasol wedi cael cyngor ac arweiniad ynghylch y llwybrau priodol ar gyfer gwneud cwyn, a bod cymorth emosiynol wedi'i gynnig i bob un ohonynt. Yn unol â'n canllawiau, caiff y cysylltiadau hyn eu hadrodd yn ddienw gan y Swyddogion Cyswllt at y Pennaeth Adnoddau Dynol, sydd wedyn yn gallu cadarnhau a oes unrhyw batrymau yn dod i'r amlwg ac a oes angen ymyrryd. Hefyd, ar ddau achlysur, cysylltwyd â'r Swyddogion Cyswllt mewn perthynas ag achosion lle nad oedd y cwynion honedig yn faterion i'r Cynulliad neu i'n Comisiynydd Safonau annibynnol eu hystyried. Cyfeiriwyd yr achwynwyr at

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

yr awdurdod priodol mewn modd sensitif i ymdrin â'u cwynion. Bydd ein Pennaeth Adnoddau Dynol yn parhau i adolygu gwaith ein Swyddogion Cyswllt, gan sicrhau eich bod chi, y Bwrdd Taliadau a Chomisiwn y Cynulliad, sy'n gyfrifol am wahanol grwpiau o bobl sy'n gweithio yma, yn cael gwybod am y cynnydd.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd